**Atodiad A: Trosolwg o'r Cerrig Milltir ar gyfer Gweithredu Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025**

**O 9 Chwefror i 7 Ebrill 2026:**

- <u>**Ymgynghoriad yn cael ei gynnal**</u> **mewn perthynas â dyletswydd cynllun digonolrwydd awdurdod lleol** (dileu elw o ofal plant)

**Diwedd Mawrth 2026:**

- **Cyhoeddi canllawiau statudol** i helpu i ddeall a chymhwyso Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2026, *mewn perthynas â gofal iechyd parhaus y GIG* – yn *amodol ar gymeradwyo'r Rheoliadau gan y Senedd ar 24 Mawrth.*

**O 1 Ebrill 2026:**

- Ni fydd unrhyw gartref plant, llety diogel na gwasanaeth maethu **'er elw' newydd** yn cael caniatâd i gofrestru yng Nghymru.
- **Ni chaiff darparwyr 'er elw' presennol** y 'gwasanaethau plant o dan gyfyngiad' hyn amrywio eu cofrestriad i ychwanegu gwasanaeth neu le newydd.
- **Mae'r ddyletswydd digonolrwydd** o dan adran 75(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi'i diwygio i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau llety addas i blant sy'n derbyn gofal; blaenoriaethu opsiynau o fewn eu hardal neu'n agos iddi; a defnyddio darparwyr awdurdod lleol neu ddarparwyr nid-er-elw yn unig.
- Rhaid i **bob darparwr gwasanaethau gofal cymdeithasol** sydd wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, o dan Ddeddf Cofrestru ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, **gyhoeddi eu datganiad blynyddol** ar eu gwefan eu hunain, erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn.
- Bydd yn ofynnol **i ddarparwyr gwasanaethau sy'n dymuno canslo eu cofrestriad** yn ei gyfanrwydd gyflwyno gwybodaeth benodol, y manylir arni mewn rheoliadau, i sicrhau bod y broses o gau gwasanaethau yn cael ei rheoli'n ddiogel, yn dryloyw a gyda sylw priodol i lesiant unigolion.
- Cryfhau **pwerau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â 'Gwybodaeth ac Ymchwiliadau'** – a fydd yn cael ei weithredu'n ymarferol gan Arolygiaeth Gofal Cymru – i gefnogi ymchwiliadau i wasanaethau os oes amheuaeth nad ydynt wedi cofrestru.
- Bydd **Paneli Gorchmynion Interim Gofal Cymdeithasol Cymru neu Baneli Addasrwydd i Ymarfer** yn gallu ymestyn gorchymyn interim am gyfnod o hyd at 18 mis i gyd, o'r dyddiad y cafodd ei wneud gyntaf, heb fod angen gwneud cais i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.
- **Bydd oedolion sy'n gymwys i gael gofal iechyd parhaus y GIG yn gallu gofyn i daliadau uniongyrchol** gael eu gwneud iddyn nhw (neu i'w cynrychiolydd) gan eu Bwrdd Iechyd Lleol, i'w galluogi i sicrhau'r gwasanaethau a aseswyd ar eu cyfer i ddiwallu eu hanghenion gofal iechyd - yn hytrach na chael gwasanaethau a ddarperir neu a gomisiynir gan y GIG yng Nghymru.

**Erbyn 1 Rhagfyr 2026 fan bellaf:**

- **Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno eu cynlluniau digonolrwydd blynyddol drafft cyntaf** (sy'n cwmpasu blwyddyn ariannol 2027-28) i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo

*Bydd canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol ar baratoi cynlluniau digonolrwydd blynyddol yn cael eu datblygu gyda'r sector ac yn cael eu cyhoeddi erbyn hynny.*

**O 1 Ebrill 2027:**

- **Ni ellir ychwanegu gwelyau ychwanegol** at ddarpariaeth cartrefi plant 'er elw' presennol.
- **Bydd gofyn i awdurdodau lleol gyhoeddi eu cynlluniau digonolrwydd blynyddol cyntaf, wedi'u cymeradwyo** (sy'n cwmpasu blwyddyn ariannol 2027-28).
- Ni chaiff darparwyr gwasanaeth maethu 'er elw' presennol gymeradwyo **unrhyw ofalwyr maeth newydd.**

**Erbyn 1 Chwefror 2028 fan bellaf:**

- Bydd gofyn i awdurdodau lleol **gyflwyno eu hail gynlluniau digonolrwydd blynyddol drafft** ( yn cwmpasu blwyddyn ariannol 2028-29) i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo.

**O 1 Ebrill 2028:**

- Bydd gofyn i awdurdodau lleol **gyhoeddi eu hail gynlluniau digonolrwydd blynyddol wedi'u cymeradwyo** (yn cwmpasu blwyddyn ariannol 2028-29).
- **Cyhoeddi adroddiadau blynyddol awdurdodau lleol** sy'n cwmpasu blwyddyn ariannol 2027-28, gan gynnwys – fel sy'n ofynnol o dan adran 75D newydd Deddf 2014 – gwybodaeth am sut maent wedi cynyddu llety addas o dan adran 75(1), neu'n disgwyl ei gynyddu.

**Erbyn 1 Chwefror 2029 fan bellaf:**

- Bydd gofyn i awdurdodau lleol **gyflwyno eu trydydd cynllun digonolrwydd blynyddol drafft** (sy'n cwmpasu blwyddyn ariannol 2029-30) i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

**O 1 Ebrill 2029:**

- Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol **gyhoeddi eu trydydd cynllun digonolrwydd blynyddol wedi'i gymeradwyo** (sy'n cwmpasu blwyddyn ariannol 2029-30).
- **Cyhoeddi adroddiadau blynyddol awdurdodau lleol** sy'n cwmpasu blwyddyn ariannol 2028-29 gan gynnwys gwybodaeth o fewn yr Adran 75D newydd.

**Erbyn 1 Chwefror 2030 fan bellaf:**

- Bydd gofyn i awdurdodau lleol **gyflwyno eu pedwerydd cynllun digonolrwydd blynyddol drafft** (sy'n cwmpasu blwyddyn ariannol 2030-31) i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

**Ebrill 2030:**

- **Ni ellir rhoi plant yng ngofal darparwr gwasanaeth 'er elw', ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol** (e.e. os nad oes lleoedd addas ar gael mewn gwasanaethau nid-er-elw).
- Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol **gyhoeddi eu pedwerydd cynllun digonolrwydd blynyddol wedi'i gymeradwyo** (sy'n cwmpasu blwyddyn ariannol 2030-31).
- **Cyhoeddi adroddiadau blynyddol awdurdodau lleol** sy'n cwmpasu blwyddyn ariannol 2029-30 gan gynnwys gwybodaeth o fewn yr Adran 75D newydd.
- **Darpariaethau i ddod i rym ynghylch ceisiadau awdurdodau lleol i Weinidogion Cymru, i gymeradwyo lleoli plant mewn lleoliadau 'atodol'** gyda darparwyr er elw presennol, mewn amgylchiadau eithriadol.

*Bydd canllawiau statudol i awdurdodau lleol ynglŷn â gwneud y ceisiadau hyn i Weinidogion Cymru ynghylch lleoliadau atodol yn cael eu datblygu gyda'r sector, a'u cyhoeddi erbyn hynny.*